

**Cyngor Sir Penfro**



**Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG**

**Uno Ysgol y Frenni ac  
Ysgol y Preseli i ffurfio Ysgol Cyfrwng  
Cymraeg 3-19 yng Nghrymych**

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**Steven Richards-Downes  
Cyfarwyddwr Addysg**

**Hydref 2020**

**Cyhoeddir gan:**

**Cyngor Sir Penfro  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd  
SA61 1TP**

**Hydref 2020**

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print mwy neu dâp sain, neu iaith amgen, cysylltwch â Cyngor Sir Penfro ar 01437 776613

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer dysgwyr yr 21<sup>ain</sup> ganrif yn her sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru.

Mae bodloni'r her hon yn cynnwys adolygu nifer a math yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o'i adnoddau a'i gyfleusterau ai peidio.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgol
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgol
- Gwerth am arian

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynnig i uno Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli er mwyn sefydlu ysgol Gymraeg 3-19 newydd yng Nghrymych. Cofnodir yr holl ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd â chrynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion. I gyd-fynd â'r rhain mae eglurhad neu wrthodiad (fel y bo'n briodol) i unrhyw bryderon.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

**Steven Richards-Downes**  
**Cyfarwyddwr Addysg**

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori</b>	<b>2</b>
<b>3. Trefniadau Ymgynghori</b>	<b>3</b>
<b>4. Gohebiaeth Ymgynghori</b>	<b>4</b>
<b>5. Ymatebion Ymgynghori</b>	<b>5</b>
<b>ATODIAD A - Gohebiaeth a dderbyniwyd</b>	<b>14</b>
<b>ATODIAD B - Ymateb gan Estyn</b>	<b>42</b>

# 1. Cyflwyniad

Mae gan Cyngor Sir Penfro ddyletswydd statudol i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas yn ei ardal ac i benderfynu a yw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau i gyflawni'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2019, bu Cyngor Sir Penfro yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad ac ymgysylltiad rhagarweiniol a gynhaliwyd ar Ysgol y Preseli a'i hysgolion bwydo. Ystyriodd yr adroddiad amrywiaeth eang o faterion a oedd yn codi o ganlyniad i'r ymgysylltiad rhagarweiniol a daeth i ben gydag argymhelliad i sefydlu endid 3-19 newydd yn lle'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd ar wahân a ddarperir gan Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli. Roedd penderfyniad y Cyngor fel a ganlyn:

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i ddod ag Ysgol y Preseli ac Ysgol y Frenni i ben, a sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 newydd gan ddefnyddio safleoedd presennol y ddwy ysgol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol dilynol yn ystod y cyfnod 3 Mawrth 2020 i 24 Gorffennaf 2020.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y Cyngor Sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi Dogfen Ymgynghori. Mae'r ddogfen hon:

- Yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Yn ymateb i'r materion hyn trwy egluro neu wrthod y pryderon gyda rhesymau ategol, ac
- Yn nodi barn Estyn am rinweddau cyffredinol y cynnig.

## 2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori

Dosberthir yr Adroddiad Ymgynghori hwn i'r canlynol:

<b>Cyrff Llywodraethu, Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid a Staff:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol y Frenni</li> <li>• Ysgol y Preseli</li> <li>• Ysgol Llandudoch</li> <li>• Ysgol Cilgerran</li> <li>• Ysgol Eglwysrwr</li> <li>• Ysgol Clydau</li> <li>• Ysgol Maenclochog</li> <li>• Ysgol Brynconin</li> <li>• Ysgol Hafan y Môr</li> <li>• Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth</li> <li>• Ysgol Bro Ingli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Llanychllwydog</li> <li>• Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-mael</li> <li>• Ysgol Bro Gwaun</li> <li>• Ysgol Caer Elen</li> <li>• Ysgol Portfield</li> <li>• Ysgol Beca</li> <li>• Ysgol Bro Brynach</li> <li>• Ysgol Penparc</li> <li>• Ysgol Gynradd Aberteifi</li> <li>• Ysgol Uwchradd Aberteifi</li> </ul>
<b>Aelodau Etholedig:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Paul Davies AC - Etholaeth</li> <li>• Angela Burns AC - Etholaeth</li> <li>• Helen Mary Jones AC - Rhanbarthol</li> <li>• Joyce Watson AC - Rhanbarthol</li> <li>• Eluned Morgan AC - Rhanbarthol</li> <li>• Neil Hamilton AC - Rhanbarthol</li> <li>• Stephen Crabb AS (Preseli Penfro)</li> <li>• Simon Hart AS (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro)</li> <li>• Cyng. DGM James</li> <li>• Cyng. P Harries</li> <li>• Cyng. JT Davies</li> <li>• Cyng. CW Tomos</li> <li>• Cyng. RG Bowen</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyng. HM George</li> <li>• Cyng. D Simpson</li> <li>• Cyng. EA Morse</li> <li>• Cyng. A Baron</li> <li>• Cyng. DJ Pugh</li> <li>• Cyng. JJ Williams</li> <li>• Cyng. P Baker</li> <li>• Cyng. JS Preston</li> <li>• Cyng. ML Evans</li> <li>• Cyng. M Williams</li> <li>• Cyng. P Kidney</li> <li>• Cyng. PD Rapi</li> <li>• Cyng. D Clements</li> </ul>
<b>Cynghorau Tref a Chymuned Perthnasol:</b>	
Llandudoch, Nanhyfer, Cilgerran, Trefdraeth, Eglwysrwr, Cwm Gwaun, Maenordeifi, Boncath, Clydau, Crymych, Mynachlogddu, Clunderwen, Maenclochog, Gorllewin Llandysilio, Y Mot, Llawhaden, Llanddewi Felffre, Llanbedr Felffre, Amroth, Saundersfoot, Llanfair Dinbych-y-pysgod, Dinbych-y-pysgod, Penalun, St Florence, East Williamston, Jeffreyston, Caeriw, Maenorbŷr, Martletwy, Wiston, Cilymaenllwyd, Llanboidy.	
<b>Undebau Llafur:</b>	
NUT, NASUWT, UCAC, ATL, NAHT, ASCLE, UNSAIN, UNITE, GMB	
<b>Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tyddewi</li> <li>• Mynyw</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyngor Sir Gâr</li> <li>Cyngor Sir Ceredigion</li> </ul>
Gweinidogion Cymru, Estyn	ERW - Consortiwm Addysg Ranbarthol

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys	Comisiynydd y Gymraeg
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	SNAP Cymru Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol
Darparwyr blynyddoedd cynnar/Gofal Plant Annibynnol/Gwirfoddol	Coleg Ceredigion Coleg Sir Benfro

Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i'r holl ymgynghoreion sydd wedi gofyn yn benodol am gael gwybod ei fod ar gael.

## 3. Trefniadau Ymgynghori

### 3.1 Trefniadau Cyffredinol

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori ar 3 Mawrth 2020 ac roedd y dyddiad hwn hefyd yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Roedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol i fod i ddod i ben ar 15 Ebrill 2020, ond oherwydd y coronafeirws a'i effaith ar gau ysgolion a chyfyngiadau eraill, estynnwyd y cyfnod ymgynghori. Yn dilyn ailagor ysgolion am gyfnod o "Ailgydio, dal i fyny a pharatoi" ar 29 Mehefin, penderfynwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion ymgynghori fyddai 24 Gorffennaf 2020.

Dosbarthwyd y Ddogfen Ymgynghori / anfonwyd dolenni at yr holl ymgynghoreion statudol a restrir ar Dudalen 5 y ddogfen honno.

Roedd y Ddogfen Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor Sir yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud>.

### 3.2 Cyfarfodydd Rhanddeiliaid

Er ei bod yn arferol cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a disgyblion, a'r gymuned ehangach fel rhan o gynigion, oherwydd y Coronafeirws ni chafwyd cyfle i gynnal digwyddiadau o'r fath yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dylid nodi nad oes unrhyw ofyniad i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori.

## 4. Gohebiaeth Ymgynghori

### 4.1 Cyfaint a Phroffil yr Ymatebion a Dderbyniwyd

Derbyniwyd cyfanswm o 74 o ymatebion trwy'r ddolen we ar-lein, ffurflenni ymateb cyffredinol a "chyfeillgar i ddisgyblion", negeseuon e-bost a llythyron. Mae'r dadansoddiad fel a ganlyn:

Rhoddir proffil yr ymatebwyr isod ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddir. Mae'r proffil hwn yn nodi rôl ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghoriad a gall nodi sawl rôl, e.e. rhiant, staff a phreswyllydd lleol; o ganlyniad nid yw'r cyfanswm yn hafal i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd.

Proffil	Nifer
Rhiant cyn-ysgol	6
Rhieni	41
Staff	10
Llywodraethwyr	5
Preswylwyr	28
Arall	4

Mewn perthynas â rhieni cyn-ysgol a rhieni presennol, mae'r tabl canlynol yn dangos yr ysgolion y gwnaeth y grwpiau hyn uniaethu â nhw.

Ysgol	Nifer
Ysgol y Preseli	28
Ysgol y Frenni	24
Ysgol Eglwysrwr	5
Ysgol Llandudoch	3
Ysgol Maenclochog	2
Ysgol Gynradd Gymunedol Arberth	2
Ysgol Cilgerran	1
Ysgol Clydau	1
Ysgol Caer Elen	1

## 5. Ymatebion Ymgynghori

### 5.1 Consensws Cyffredinol

Pan ddewisodd ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu gopi caled a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i un cwestiwn er mwyn sefydlu pa un o'r datganiadau canlynol a oedd yn adlewyrchu eu barn orau. Mae'r canfyddiadau fel a ganlyn:

*Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn ar y cynnig:*



*Cau Ysgol y Preseli ac Ysgol y Frenni, a sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 newydd gan ddefnyddio safleoedd cyfredol y ddwy ysgol*

	Cyfanswm	
	Nifer	%
<b>Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall</b>	14	20
<b>Rwy'n cefnogi'r cynnig</b>	24	34.3
<b>Nid wyf yn cefnogi'r cynnig</b>	32	45.7
<b>CYFANSWM</b>	<b>70</b>	<b>100</b>

## 5.2 Dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn ystod ymgynghoriad

Mae rhestr o'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghlwm fel **ATODIAD A**.

Mae'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn datgelu nifer o faterion a godwyd gan ymgynghoreion. Mae'r rhain yn adlewyrchu cefnogaeth, meysydd pryder, dewisiadau amgen a awgrymir a gwrthwynebiad ac fe'u rhestrir isod.

### 5.2.1 Sylwadau yn cefnogi'r cynnig

- Buddion darpariaeth drwodd (3-19), h.y.
  - Gwell cynllunio pontio a chwricwlwm a datblygu perthnasau rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd;
  - Tystiolaeth o lwyddiant a chanlyniadau arolygu cadarnhaol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwodd eraill ledled Cymru
  - Defnydd mwy effeithiol o adnoddau, e.e. un tîm arweinyddiaeth sy'n cwmpasu'r ysgol gyfan.
- Pwysigrwydd cadw ac ymestyn rhai agweddau ar y ddarpariaeth, h.y.
  - Y ddarpariaeth chweched dosbarth boblogaidd a llwyddiannus;
  - Canolfan Gymraeg ar gyfer disgyblion sy'n hwyr-ddyfodiaid i'r iaith;
  - Dysgu Oedolion a'r Gymuned (ACL);
  - Ystyried ymestyn darpariaeth ADY y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys fel rhan o Y Porth (lloeren Ysgol Portfield) i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ymddygiadol.
- Yr angen i fuddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd, h.y.
  - Mae rhan fawr o Ysgol y Preseli wedi dyddio'n sylweddol ac nid yw'n addas at y diben mwyach.
  - Pryder ynghylch graddau'r dosbarthiadau grŵp blwyddyn a rennir yn Ysgol y Frenni ac i ddarparu cynnig blynyddoedd cynnar gwell
- Agweddau cymunedol, h.y. yr angen i sicrhau mynediad parhaus at ddefnydd cymunedol o feysydd chwaraeon a Theatr y Gromlech.
- Pryderon ynghylch effaith y cynnig ar ysgolion lleol eraill a'r angen i gytuno ar ddalgychoedd penodol

### 5.2.2 Sylwadau yn erbyn y cynnig:

- Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gweithio'n dda ac felly nid oes angen newid. Dim buddion amlwg o uno.
- Dylai'r Cyngor wario'r arian a werir ar uno i wella adeiladau ysgol, yn enwedig yr arian yn Ysgol y Preseli.
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd plant 3-4 oed yn cymysgu â phobl ifanc 18-19 oed.
- Mae ysgolion bach yn gweithio'n well gan fod athrawon yn adnabod pob disgybl. Nid yw hyn yn bosibl mewn ysgol fawr. Bydd y cynnig hefyd yn arwain at ddsbarthiadau mwy.
- Pryderon y bydd creu un ysgol 3-19 yn arwain at gau ysgolion lleol eraill.
- Pryderon y bydd ysgol wedi'i huno o'r fath yng Nghrymych yn ormod i un pennaeth, yn enwedig os yw hi/ef yn gyfrifol am Ysgol Caer Elen hefyd.

### 5.2.3 Sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o ymatebion amwys

- A fydd disgyblion yn dal i allu ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 o ysgolion cynradd eraill?
- Mae angen buddsoddiad yn Ysgol y Preseli i ddarparu llety a chyfleusterau pwrpasol. Mae cyflwr yr adeiladau presennol yn wael.
- Dileu pob ysgol Gymraeg a sicrhau bod pob ysgol yn ddwyieithog; gwario arian ar "ysgolion Saesneg eu hiaith".
- Rhaid cadw at ddalgylchoedd llym er mwyn amddiffyn ysgolion cynradd cyfagos.

### 5.3 Ymateb gan Estyn

Mae'r Cyngor wedi derbyn ymateb manwl i'r cynnig gan Estyn. Mae casgliad cyffredinol y cynnig fel a ganlyn:

*Mae'r cynnig yn rhan o nod y Cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a darparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon.*

***Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg a darpariaeth gyffredol yn yr ysgolion wedi'u huno.***

Mae'r ymateb llawn i'r cynnig gan Estyn ynghlwm yn **ATODIAD B**.

### 5.4 Adnabod themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau hyn ac mae hyn yn datgelu nifer o themâu, y rhoddir rhestr fanwl ohonynt, ynghyd ag ymatebion priodol yr Awdurdod, isod. Nod y dadansoddiad fu casglu, dehongli a chyflwyno canfyddiad y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnig mor ffyddlon â phosibl. Rhoddwyd pwysiad cyfartal i'r holl sylwadau, waeth beth yw eu ffynhonnell, neu raddau'r cynnwys. Dylid nodi bod rhai o'r sylwadau a wneir isod wedi'u mynegi yng nghyd-destun cefnogaeth a gwrthwynebiad i'r cynnig.

Pryderon / Sylwadau Estyn	Ymateb yr Awdurdod i bryderon a godwyd
<p>Mae'r cynigydd yn rhestru ychydig o anfanteision posibl, ond mae'r rhain yn gyfyngedig i ganfyddiad y cyhoedd yn hytrach nag effaith ar ddysgwyr. Y ddwy anfantais a restrir yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwrthwynebiad posib gan rai rhanddeiliaid a fyddai'n well ganddynt gynnal y status quo</li> <li>• Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn parhau i gredu y bydd y cynnig yn arwain at 'siwpyr ysgol' i'r ardal.</li> </ul> <p>Mae'r cynigydd yn nodi risgiau pellach, ac un ohonynt yw 'cwmp yn safonau disgyblion' ac yn awgrymu y bydd 'mwy o gydweithredu a chyfathrebu' rhwng yr ysgolion yn lleihau'r risg. Fodd bynnag, nid yw'n glir pam eu bod wedi nodi hyn fel risg a sut y byddant yn lliniaru yn ei erbyn yn benodol.</p>	<p>Egwyddor sylfaenol holl gynigion trefniadaeth ysgolion y Cyngor yw ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol. Mae potensial i aflonyddwch ym mhob cynnig o'r fath ac mae perygl bob amser y bydd safonau disgyblion yn cwmpo dros dro. Fodd bynnag, o ystyried cryfderau'r ddwy ysgol gyfansoddol, fel yr amlinellwyd ym Mharagraff 3.8 o'r Ddogfen Ymgynghori, ystyrir bod risg o'r fath yn fach iawn.</p>
<p>Mae'r cynigydd yn honni yn rhesymol y gallai ysgol 3-19 wella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol trwy ddarparu dosbarthiad gwell o rolau arwain a datblygiad proffesiynol i staff. Fodd bynnag, nid yw wedi ystyried strwythurau enghreifftiol digon da ar gyfer yr ysgol newydd a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyllid.</p>	<p>Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sefydlwyd nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg 3-19 ledled Cymru a byddai'n rhesymol rhagweld y byddai corff llywodraethu'r ysgol arfaethedig yn ystyried yr amrywiol fodelau strwythur arweinyddiaeth sy'n bodoli yn yr ysgolion hyn er mwyn cwrdd â gofynion yr ysgol newydd orau. Mae'n bwysig nodi nad oes model 'addas i bawb' a bydd yn achos o sut y gellir cynnwys y modelau sy'n bodoli yn yr ysgolion trwodd mwyaf llwyddiannus gan ystyried polisïau AD lleol a'r gyllideb sydd ar gael.</p>

Pryderon / Sylwadau Estyn	Ymateb yr Awdurdod i bryderon a godwyd
<p>Mae'r cynigydd wedi nodi'n deg y bydd aflonyddwch cyfyngedig i ddisgyblion, trafnidiaeth ac i'r gymuned leol gan y bydd yr ysgol newydd yn aros ar ei safle presennol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod cyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol uwchradd a'r angen am fuddsoddiad ac adeiladu yn y dyfodol. Er enghraifft, cyflwr gwael dwy ystafell ddosbarth symudol yr ysgol sy'n cynnwys y Ganolfan Iaith a labordai gwyddoniaeth.</p>	<p>Mae cyflwr adeiladau yn Ysgol y Preseli wedi cael ei gydnabod ar sawl achlysur ac yn aml mae'n cael ei wyntyllu yn y Cabinet, y Cyngor ac amrywiol gyfarfodydd bwrdd fel achos pryder. Prif ffynhonnell cyllid cyfalaf y Cyngor ar gyfer prosiectau mor arwyddocaol yw Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac mae hyn wedi ymrwymo'n llawn hyd at 2024, h.y. Band B. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Cyngor ystyried maint ymrwymiad y Cyngor tuag at ffrydiau pellach y Rhaglen maes o law ac mae'n debygol iawn y bydd angen mynd i'r afael â chyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol uwchradd yng Nghrymoch fel rhan o'r ystyriaeth honno.</p>

Pryderon / Sylwadau Cyffredinol	Ymatebion yr Awdurdod i bryderon a godwyd
<p>Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gweithio'n dda ac felly nid oes angen newid. Nid oes unrhyw fuddion amlwg o uno.</p>	<p>Cydnabyddir bod y ddwy ysgol gyfredol yn llwyddiannus a bod canfyddiad nad oes unrhyw fuddion o uno. Fodd bynnag, mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ethos cyffredin a gwerthoedd cyffredin ar draws yr ysgol</li> <li>• cynllunio cwricwlwm cydgysylltiedig i gynyddu cydlyniant a pharhad yn nysg y disgyblion</li> <li>• cyd-reoli a gweithredu systemau cyffredin ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion</li> <li>• mwy o gysondeb mewn arddulliau dysgu ac addysgu</li> <li>• datblygu perthnasau ac arbenigedd a rennir rhwng staff yn y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd</li> <li>• mwy o ddatblygu sgiliau gyda ffocws ar feithrin gallu plant yn Gymraeg</li> <li>• cyfleoedd i ddysgu ar draws grwpiau oedran a rhannu profiadau cyfoethog a gweithgareddau cymunedol</li> </ul>

Pryderon / Sylwadau Cyffredinol	Ymatebion yr Awdurdod i bryderon a godwyd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofal a chymorth estynedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth ar gyfer grwpiau bregus eraill</li> <li>• mwy o fynediad i ddisgyblion at ystod o adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau dysgu arbenigol</li> <li>• cysylltiadau cryfach â rhieni a chynnwys y gymuned leol</li> <li>• llywodraethu cyfun a defnydd effeithlon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol</li> </ul>
<p>Dylai'r cyngor wario'r arian a werir ar yr uno i wella adeiladau ysgol, yn enwedig y rhai yn Ysgol y Preseli.</p> <p>Mae rhan fawr o Ysgol y Preseli wedi dyddio'n sylweddol ac nid yw'n addas at y diben mwyach.</p> <p>Mae cyflwr cyffredinol yr adeiladau presennol yn Ysgol y Preseli yn wael.</p>	<p>Mae cyflwr adeiladau yn Ysgol y Preseli wedi cael ei gydnabod ar sawl achlysur ac yn aml mae'n cael ei wyntyllu yn y Cabinet, y Cyngor ac amrywiol gyfarfodydd bwrdd fel achos pryder. Prif ffynhonnell cyllid cyfalaf y Cyngor ar gyfer prosiectau mor sylweddol yw Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac mae hyn wedi ymrwymo'n llawn hyd at 2024, h.y. Band B.</p>
<p>Pryderon rhieni ynghylch y posibilrwydd y bydd plant 3-4 oed yn cymysgu â phobl ifanc 18-19 oed.</p>	<p>Er bod y cynnig yn un i greu endid ysgol sengl, ni fydd yn arwain at ddisgyblion ifanc iawn yn cymysgu â disgyblion chweched dosbarth, oni bai eu bod yn rhan o weithgareddau neu ddigwyddiadau ysgol a gynlluniwyd. O ystyried y bydd y cynnig yn arwain at ddefnyddio safle presennol y ddwy ysgol, ac o ystyried y llety a'r cyfleusterau penodol sy'n briodol i'w hoedran, yna mae'n debygol iawn y bydd plant ifanc iawn yn aros ar safle 'Y Frenni', a disgyblion hŷn yn aros ar safle 'Y Preseli'.</p>
<p>Mae ysgolion bach yn gweithio'n well gan fod athrawon yn adnabod pob disgybl yn well. Nid yw hyn yn bosibl mewn ysgol fawr. Bydd y cynnig hefyd yn arwain at ddsbarthiadau mwy.</p>	<p>Er bod y cynnig yn un i greu endid ysgol sengl, mwy, ni fydd yn arwain at feintiau dosbarthiadau mwy, ac ni fydd yn arwain at athrawon ddim yn adnabod y disgyblion. Mae'n debygol y bydd disgyblion yn fwy cyfarwydd i athrawon wrth i'r cyfnod pontio presennol rhwng Blynnydoedd 6 a 7 gael ei ddileu.</p>

Pryderon / Sylwadau Cyffredinol	Ymatebion yr Awdurdod i bryderon a godwyd
	O ystyried y bydd y cynnig yn arwain at ddefnyddio safleoedd presennol y ddwy ysgol, yna mae'n debygol iawn na fydd y mwyafrif o blant yn gweld fawr o wahaniaeth o ddydd i ddydd.
Pryderon y bydd creu un ysgol 3-19 yn arwain at gau ysgolion lleol eraill.	Nid yw'r cynnig yn amharu ar unrhyw ysgol leol arall a mynegwyd hyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli yng Nghrymmych yn unig.
Pryderon ynghylch effaith y cynnig ar ysgolion lleol eraill a'r angen i gytuno ar ddalylchoedd penodol.	Ni chynigir cynyddu capasiti'r ysgol newydd y tu hwnt i'r hyn sy'n gymwys i'r ysgolion presennol. Yn yr un modd, bydd y dalylchoedd sy'n berthnasol i'r ddwy ysgol ar hyn o bryd, fel yr amlinellir ar dudalennau 12-13 o'r Ddogfen Ymgynghori, yn parhau ar gyfer yr ysgol newydd, h.y. ar gyfer cyfnodau cynradd ac uwchradd yr ysgol. Ni chynigir unrhyw newidiadau i unrhyw ysgol arall.
Pryderon y bydd ysgol wedi'i chyfuno o'r fath yng Nghrymmych yn ormod i un pennaeth, yn enwedig os yw hi/ef yn gyfrifol am Ysgol Caer Elen hefyd.	Mae penderfyniadau ar benodiadau penaethiaid yn faterion i gyrff llywodraethu perthnasol. Dylid nodi bod yr ysgol, yn achos Ysgol Caer Elen, yn egin ysgol gyda grwpiau blwyddyn uwchradd yn cael eu hychwanegu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd angen i gorff llywodraethu'r ysgol honno ystyried a fydd y trefniadau pennaeth gweithredol cyfredol yn parhau i fod yn briodol wrth i'r ysgol barhau i dyfu. Yn yr un modd, ac yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd angen i gorff llywodraethu dros dro yr ysgol newydd yng Nghrymmych ystyried y model arweinyddiaeth mwyaf priodol yno.
Mae'n bwysig cadw rhai agweddau ar y ddarpariaeth, h.y. y chweched dosbarth, Canolfan Iaith Gymraeg, Dysgu Oedolion a'r Gymuned, ac ymestyn y ddarpariaeth ADY yn lleol i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion ymddygiadol.	Mae'r cynnig yn un ar gyfer ysgol 3-19, ac felly bydd darpariaeth chweched dosbarth yn aros. Mewn perthynas â meysydd darpariaeth eraill: <b>Canolfan Iaith Gymraeg</b> - Mae'r tair canolfan iaith yn Ysgol y Preseli, Ysgol Bro Gwaun ac Ysgol Caer Elen yn elfennau pwysig o strategaeth y Cyngor i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir bod y canolfannau iaith yn hanfodol wrth sicrhau bod disgyblion sy'n 'hwyrddyfodiaid' i'r Gymraeg yn gallu cyrraedd y lefel ieithyddol briodol er mwyn cymryd rhan lawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a gallant symud ymlaen i addysg uwchradd Gymraeg. Er y

Pryderon / Sylwadau Cyffredinol	Ymatebion yr Awdurdod i bryderon a godwyd
	<p>gall corff llywodraethu'r ysgol newydd bennu lleoliad arall ar gyfer y ddarpariaeth ar gampws yr ysgol, mae pob bwriad iddi aros fel rhan o'r ysgol newydd.</p> <p><b>Dysgu Oedolion a'r Gymuned</b> - Cydnabyddir bod gan yr ysgolion hanes o gynnal ystod dda o ddysgu i'r gymuned dros nifer o flynyddoedd ac nid oes unrhyw reswm i gredu y bydd y cynnig yn effeithio ar hyn.</p> <p><b>Darpariaeth ADY</b> - Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn adleisio'r rhai a dderbyniwyd yn ystod y cam ymgysylltu rhagarweiniol. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth ledled y sir, ystyrir y dylai'r status quo aros. Nid yw hyn yn atal unrhyw ddatblygiadau o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol.</p>
<p>Pryderon bod y defnydd cymunedol sylweddol o'r ddwy ysgol yn cael ei gadw fel rhan o ysgol wedi'i huno, e.e. mynediad i amrywiol gaeau chwaraeon a Theatr y Gromlech.</p>	<p>Mae hwn yn fater i gorff llywodraethu'r ysgol newydd. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn annog bod mynediad y gymuned i gyfleusterau gwerthfawr o'r fath yn parhau.</p>
<p>A fydd disgyblion yn dal i allu ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 o ysgolion cynradd eraill?</p>	<p>Byddan. Bydd elfen uwchradd yr ysgol newydd arfaethedig yn parhau i dderbyn disgyblion o ysgolion cynradd eraill. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i rieni wneud cais am leoedd. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i rieni disgyblion ym Mlwyddyn 6 yr ysgol newydd arfaethedig wneud cais ar gyfer Blwyddyn 7 gan y byddant yn symud ymlaen yn awtomatig.</p>
<p>Dylai'r Cyngor fod yn dileu pob ysgol Gymraeg a dynodi pob ysgol yn ddwyieithog. Dylid gwario arian ar ysgolion Saesneg eu hiaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn Sir Benfro yn unol â'i Gynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg a bydd gofyn iddo ddangos ehangu pellach fel rhan o gynllun 10 mlynedd newydd hyd at 2030. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynllunio ei ddarpariaeth yn unol â'r categorïau ieithyddol o ysgolion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys darpariaeth ddwyieithog; fodd bynnag, mae gogledd ddwyrain Sir Benfro yn</p>



Pryderon / Sylwadau Cyffredinol	Ymatebion yr Awdurdod i bryderon a godwyd
	parhau i fod yn gadarnle i'r Gymraeg ac mae'n bwysig sicrhau bod ystâd yr ysgol yn adlewyrchu hynny.
Mae'r pryder a fynegwyd mewn perthynas â dosbarthiadau grŵp blwyddyn a rennir yn Ysgol y Frenni ac i ddarparu cynnig blynyddoedd cynnar gwell.	Mae trefniadaeth dosbarthiadau yn fater i benaethiaid unigol ac mae'n ystyried niferoedd disgyblion a fforddiadwyedd. Fel ysgol 3-11, mae Ysgol y Frenni yn darparu addysg i blant tair oed rhan amser ac yn cynnig hyn mewn cydweithrediad â darparwyr annibynnol lleol, e.e. Cylch Meithrin. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal Canolfan Integredig i Blant ar y safle. Felly, ystyrir bod hwn yn gynnig blynyddoedd cynnar da.

**AMALGAMATION OF YSGOL Y FRENNI AND  
YSGOL Y PRESELI TO FORM A 3-19 WELSH MEDIUM SCHOOL IN CRYMYCH**

Ref.	Comments
1	<p>Leave things as they are.</p> <p>Why is it considered a good thing to have three and four-year-olds mixing with 18 and 19-year-olds? Primary school children should be able to enjoy being primary school children.</p> <p>Gadael pethau fel ag y maent.</p> <p>Pam mae'n cael ei ystyried yn beth da i gael plant tair a phedair blwydd oed yn cymysgu efo rhai 18 a 19 mlwydd oed? Dylai plant Ysgol Gynradd gael mwynhau bod yn blant Ysgol Gynradd.</p>
2	<p align="center"><b>UNO YSGOL Y FRENNI AC YSGOL Y PRESELI ER MWYN FFURFIO YSGOL CYFRWNG CYMRAEG 3-19 YNG NGHRYMYCH</b></p> <p align="center"><b>Ymateb Corff Llywodraethol Ysgol Y Preseli</b></p> <p align="center"><b>Gorffennaf 2020</b></p> <p>Cydestun</p> <p>Gweithredir Ysgol y Preseli fel mam ysgol mewn partneriaeth â nifer cynyddol o ysgolion cynradd ar lefel clwstwr gan gynnwys Ysgol Caer Elen. Mae'r bartneriaeth yma'n profi'n llwyddiannus iawn wrth gydweithio a chynllunio tuag at ddyfodiad y cwricwlwm newydd yn 2022.</p> <p>Yn sgil agor Ysgol Caer Elen ym Medi 2018, mae niferoedd Ysgol y Preseli wedi gostwng o 882 yn Ionawr 2018 i 782 yn Ionawr 2020. Hoffem gydnabod penderfyniad doeth y cyngor sir i addasu dalgylchoedd Ysgol Y Preseli ac Ysgol Caer Elen yn 2019 er mwyn cynnwys Ysgol Hafan Y Mor ac Ysgol Gynradd Arberth. Mae'r</p>

Ref.	Comments
	<p>penderfyniad yma, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol yn y nifer o ddisgyblion B6 ar draws y dalgylch wedi arwain at gynnydd yn y nifer o ddisgyblion sydd wedi dewis trosglwyddo i Ysgol Y Preseli ym Medi 2020.</p> <p>Mae llwyddiant cynnar Ysgol Caer Elen wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer o blant yn yr adran gynradd. Erbyn hyn mae'r sector cynradd yn llawn gyda rhestr aros cynyddol. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi addasu'r rhif mynediad o 45-60 yn y cynradd ond yn anffodus ni fydd hyn yn ddigon er mwyn amsugno'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng ngorllewin y sir. Disgwylir lleoli cabanau dros dro ar gampws newydd Ysgol Caer Elen o Fedi 2021 er mwyn ceiso amsugno'r galw am lefydd yn yr Ysgol. Maes o law, bydd niferoedd o 60 yn trosglwyddo o flynyddoedd 6-7 yn Ysgol Caer Elen yn 2023 gyda tua 30 o Ysgol Gelli Aur.</p> <p>Yn y dyfodol agos bydd Ysgol Caer Elen yn hunangynhaliol o ran y nifer o ddisgyblion a fydd yn trosglwyddo i'r uwchradd h.y. niferoedd Caer Elen/Gelli Aur/Casmael/Casblaidd/Aberdaugleddau a disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a fydd yn cynyddu'n bellach y nifer o ddisgyblion yn y Ganolfan Iaith.</p> <p>Buddsodwyd yn sylweddol ar gampws Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli rhwng 2005 a 2010 wrth adnewyddu Ysgol Y Frenni a chodi adeiladau Drygarn, Eryr, Talmynydd a Chanolfan y Porth. Ond, mae rhan helaeth o adeiladau Ysgol y Preseli yn dyddio nôl i 1958 ac erbyn hyn oherwydd problemau hygyrchedd a iechyd a diogelwch, nid yw'r tŵr, y cyfleusterau chwaraeon, adrannau Drama/TGCh a'r ardaloedd Dylunio a Thechnoleg yn addas i bwrpas. Yn ôl dadansoddiad yr awdurdod o adeiladau Ysgol y Preseli maent yn sgorio'n isel iawn o ran cyflwr ac addasrwydd.</p> <p>Petai'r cyngor sir yn penderfynu uno Ysgol Y Preseli ac Ysgol Y Frenni er mwyn creu Ysgol pob oed 3-18, mae'n angenrheidiol bod buddsoddiad sylweddol mewn cyfalaf Ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn dilyn yn syth. Mae cyflwr rhai o adeiladau a thanadeiledd Ysgol Y Preseli mewn cyflwr truenus o'u cymharu â Ysgol Caer Elen. Er mwyn sicrhau cydbwysedd a thegwch ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg ardaloedd dwyreiniol y sir mae'n angenrheidiol bod adeiladau newydd yn rhan o'r cynlluniau. Yr allwedd i sicrhau trawsnewid addysg effeithiol yw buddsoddiad mewn adeiladau newydd, modern addas. Profwyd hyn eisoes yn dilyn adeiladu ysgolion newydd megis Ysgol Bro Teifi ac Ysgol Caer Elen.</p> <p>Mae'r Corff Llywodraethol o'r farn bod cyfle gwych i adrefnu a thrawsnewid addysg yng ngogledd Sir Benfro wrth fuddsoddi mewn adeiladau a sefydlu ysgol pob oed 3-18 ar gampws Ysgol y Preseli/Ysgol y Frenni gan uno'r ddwy ysgol. Mae llwyddiant Ysgol Bro Teifi, Ysgol Bro Morgannwg, Ysgol Llanhari, Ysgol Garth Olwg a nifer cynyddol o ysgolion pob oed ar draws Cymru yn tanlinellu'r cyfleoedd a'r potensial wrth uno'r ddwy ysgol. Mae buddion wrth sefydlu ysgolion pob oed yn cynnwys y materion canlynol:-</p>

Ref.	Comments
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ethos cyffredin a gwerthoedd a rennir ar draws yr ysgol • cynllunio cwricwlwm cydgysylltiedig i gynyddu cydlyniaeth a pharhad yn nysgu'r disgyblion • datblygu sgiliau'n gynyddol â ffocws ar adeiladu gallu'r disgyblion yn y Gymraeg</li> <li>• mwy o gysondeb mewn arddulliau dysgu ac addysgu</li> <li>• cyfleoedd ar gyfer dysgu ar draws oedrannau a rhannu gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau cymunedol</li> <li>• gofal a chymorth estynedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau eraill sy'n agored i niwed</li> <li>• mwy o fynediad i ddisgyblion i ystod o adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau dysgu arbenigol</li> <li>• datblygu perthnasoedd a rhannu arbenigedd rhwng staff y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd.</li> <li>• rheoli ar y cyd a gweithredu systemau cyffredin ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion</li> <li>• llywodraethu unedig a defnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau dynol yn effeithlon</li> <li>• cysylltiadau cryfach â rhieni a chynnwys y gymuned leol</li> </ul> <p>Mae gan Ysgol Y Preseli chweched dosbarth sy'n ffynnu. Mae +160 o ddisgyblion yn mynychu B12/13 gan ddilyn +30 o gyrsiau safon uwch academiaidd a galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyrir safonau CA5 Ysgol Y Preseli yn rhagorol ac mae'r ysgol yn ymddangos yn y deg uchaf o ysgolion Cymru yn y Sunday Times Good School Guide yn flynddol. Mae'n allweddol bod addysg ôl 16 cyfrwng Cymraeg y dyfodol yn rhad ac am ddim ar gyfer myfyrwyr Sir Benfro gyda'r ddarpariaeth wedi ei leoli yn Ysgol Y Preseli. Yn ôl canllawiau'r awdurdod disgwylir i ddisgyblion Ysgol Caer Elen sydd am ddilyn cyrsiau safon uwch trwy gyfrwng y Gymraeg drosglwyddo i Ysgol Y Preseli o 2023 ymlaen.</p> <p>Lleolir Canolfan Iaith ar gampws Ysgol Y Preseli er mwyn darparu cyrsiau ar gyfer hwyrdyfodiaid. Mae'r ganolfan yn gwasanaethu holl ysgolion cynradd y clwstwr ac mae % sylweddol o'r disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan yn dilyn llwybr addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n allweddol bod y Ganolfan Iaith yn parhau ar gampws y fam ysgol er mwyn sicrhau dilyniant esmwyth o'r ysgolion clwstwr i'r ysgol uwchradd/pob oed. Mae bodolaeth y Ganolfan yn allweddol er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn cynyddu'r % o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg ac o ganlyniad yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.</p> <p>Mae'r safle yng Nghrymoch hefyd yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth Addysg Gymunedol hynod effeithiol drwy'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, sydd eto'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at darged y Llywodraeth o</p>

Ref.	Comments
	<p>gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Mae'r Ganolfan Addysg Gymunedol yn ceisio diwallu anghenion sgiliau gwaith a chymhwyster, a gofynion hamdden y gymuned leol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- drefnu dewis helaeth o ddsbarthiadau dydd a nos i oedolion ac yn enwedig cyrsiau Cymraeg i Oedolion.</li> <li>- darparu rhaglen o weithgareddau amrywiol i ieuencid y cylch. e.e Aelwyd yr Urdd, Menter Iaith Sir Benfro.</li> <li>- rhoi cartref a chymorth i gymdeithasau a mudiadau lleol. e.e Côr Crymych, Fforddion Dyfed, Pwyllgor Gefeillio Crymych/Ploveilh.</li> <li>- hybu'r Celfyddydau yn yr ardal drwy weithgareddau Theatr y Gromlech, Cwmni Theatr Bro'r Preseli, Gŵyl Bro'r Preseli ac ati.</li> </ul> <p>Bydd cyfuno addysg Cynradd, Uwchradd a Dysgu Gydol Oes ar un safle cyfansawdd yn creu ffocws ac yn atgyfnerthu Addysg a Dysgu Cyfrwng Cymraeg o'r crud i'r bedd yng ngogledd Sir Benfro.</p> <p>Mae cynnydd sylweddol yn y nifer o ysgolion Cymraeg sy'n uno, ffedereiddio neu yn gorfod gweithredu heb bennaeth a hynny oherwydd diffyg ymgeiswyr addas. Mae anawsterau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid effeithiol yn enwedig yn y sector cynradd ar gyfer ysgolion bach gwledig Cymru.</p> <p>Er i'r nifer o unigolion sy'n cofrestru a chwblhau cwrs CPCP gynyddu, mae'r nifer o ymgeiswyr am swyddi arweinyddol yn lleihau. Prin yw'r nifer o ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid yn ein clwstwr e.e. mae un pennaeth yn gyfrifol am Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog; un ar gyfer Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Beca a Pennaeth Gweithredol yn gyfrifol am Ysgol Y Preseli ac Ysgol Caer Elen.</p> <p>Byddai uno Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli er mwyn sefydlu un ysgol pob oed yn arwain at benodi un pennaeth yn lle dau; creu Tîm Rheoli sy'n gyfuniad o arbenigedd cynradd/uwchradd gan greu ysgol arloesol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac her cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus.</p> <p>Mae % cynyddol o bennaethiaid cynradd oherwydd pwysau cyllidol yn gorfod ymrwymo i ddysgu % yn fwy o'u hamser e.e. 50% neu 60% sy'n lleihau'n sylweddol eu gallu i arwain yn strategol. Golyga hyn bod lles penaethiaid a'u pwysau gwaith yn cynyddu.</p> <p>Mae llwyddiannau diweddar Ysgol Bro Teifi (Estyn 2019), Ysgol Bro Morgannwg (Estyn 2019) ac Ysgol Llanhari (2018) wedi arwain at sefydlu ysgolion pob oed sy'n gweu eu hunain yn berffaith ar gyfer darparu'r cwricwlwm arloesol newydd.</p> <p>Mae gan Ysgol y Preseli loeren ADY ar gampws yr ysgol sef Canolfan y Porth. Mae lle i 8 disgybl ond mae'r Porth yn llawn. Cyfeiriwyd at lwyddiant Y Porth yn adroddiad Estyn Ysgol y Preseli (2016) ac Ysgol Portfield</p>

Ref.	Comments
	<p>(2020) “mae cysylltiadau cynhyrchiol gydag uned arbennig Canolfan y Porth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion y ganolfan a'r ysgol ac yn cyfrannu'n bwysig tuag at ethos cynhwysol yr Ysgol”.</p> <p>Hoffem awgymu'r angen i ymestyn y ganolfan i gynnwys disgyblion ADY cynradd gan gynnwys unigolion ag anawsterau ymddygiadol. Mae +£250,000 yn cael ei wario ar dalu am drafnidiaeth ar gyfer unigolion sy'n mynychu canolfannau megis Penally a'r PRU o ardaloedd gogledd-ddwyrain y sir.</p> <p>Byddai sefydlu uned annibynnol cyfrwng Cymraeg ADY ar gampws ysgol pob oed yn trawsnewid y ddarpariaeth ac yn cynnig cyfleoedd arloesol.</p> <p>Mae nifer o benaethiaid cynradd yn gweithredu fel CADY ac mae hyn yn cynyddu'n bellach eu llwyth gwaith gan osod pwysau pellach ar eu lles. Byddai penodi CADY canolog ar gyfer y clwstwr yn gost effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer ysgolion cynradd y clwstwr.</p> <p>Cyfeiriwyd eisoes at broblemau hygyrchedd ar gampws Ysgol y Preseli. Er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n gaeth i gadeiriau olwyn â phroblemau motor yn gallu cyrraedd pob ardal o'r campws mae'n rhaid buddsoddi'n sylweddol gan drawsnewid adeiladau hynaf yr adeilad.</p> <p><b>Diwedd glo</b></p> <p>Mae angen amddiffyn buddion addysg yng nghefnwlad gogledd a dwyrain Sir Benfro. Mae'r heriau demograffig a diffyg cyflwr ac addasrwydd adeiladau Ysgol y Preseli yn galw am drawsnewid. Byddai uno Ysgol Y Preseli a Ysgol Y Frenni yn arwain at adfywiad mewn addysg ar draws y clwstwr, sefydlu ysgol pob oed arloesol a llwyddiannus ar gyfer y cenhedloedd o ddisgyblion i ddod gan amddiffyn addysg cyfrwng Cymraeg yn un o gadarnleoedd yr iaith.</p> <p style="text-align: center;"><b>AMALGAMATION OF YSGOL Y FRENNI AND YSGOL Y PRESELI IN ORDER TO FORM A 3-19 WELSH MEDIUM SCHOOL IN CRYMYCH</b></p> <p style="text-align: center;"><b>Response of Ysgol Y Preseli Governing Body</b></p> <p style="text-align: center;"><b>July 2020</b></p>


Ref.	Comments
	<p>Context</p> <p>Ysgol y Preseli is being operated as the mother-school in partnership with an increasing number of primary schools at the cluster level, including Ysgol Caer Elen. This partnership is proving to be very successful as they work together and plan for the arrival of the new curriculum in 2022.</p> <p>In the wake of opening Ysgol Caer Elen in September 2018, the numbers at Ysgol y Preseli have dropped from 882 in January 2018 to 782 in January 2020.</p> <p>We would like to acknowledge the County Council's wise decision to adjust the catchment areas of Ysgol Y Preseli and Ysgol Caer Elen in 2019 in order to include Ysgol Hafan y Môr and Arberth Primary School. This decision together with the general increase in the number of pupils in Year 6 across the catchment area has led to an increase in the number of pupils who have chosen to transfer to Ysgol y Preseli in September 2020.</p> <p>The early success of Ysgol Caer Elen has led to a significant increase in the number of children in the primary section. By now, the primary section is full, with an increasing waiting list. As a result, the authority has adjusted the admission number from 45 to 60 in the primary but unfortunately this will not be sufficient to absorb the demand for Welsh medium education in the west of the county. Temporary cabins are expected on the new Caer Elen campus from September 2021 in an attempt to absorb the demand for places in the School. In due course, numbers of 60 will be transferring from years 6-7 in Ysgol Caer Elen in 2023 with about 30 from Ysgol Gelli Aur.</p> <p>In the future Ysgol Caer Elen will be selfsupporting in terms of the number of pupils who will be transferring to the secondary, i.e. Caer Elen/Gelli Aur/Casmael/Casblaidd/Aberdaugleddau and pupils from English medium primary schools will increase further the number of pupils at the Language Centre.</p> <p>Significant investment was made in Ysgol y Frenni and Ysgol y Preseli campus between 2005 and 2010 when Ysgol y Frenni was renovated and the Drygarn, Eryr, Talmynydd a Chanolfan y Porth buildings were built. But a large part of the Ysgol y Preseli buildings date back to 1958 and now there are access and health and safety problems. The tower, the sports facilities, the Drama/IT departments and Design and Technology areas are not fit for purpose. According to the authority's analysis of Ysgol y Preseli buildings, they have a very low score in terms of their condition and their appropriateness.</p>

Ref.	Comments
	<p>If the County Council were to combine Ysgol Y Preseli and Ysgol Y Frenni in order to create an all-through 3-18 School, a substantial capital investment in the twenty first century schools would need to follow immediately. The condition of some of the buildings and the infrastructure at Ysgol Y Preseli is lamentable compared to Ysgol Caer Elen. In order to ensure balance and fairness for the Welsh medium learners of the eastern areas of the county it is necessary that new buildings are part of the plans. The key to ensuring effective educational transformation is investment in new, modern buildings. This has been proved already following the building of new schools such as Ysgol Bro Teifi and Ysgol Caer Elen.</p> <p>The Governing Body is of the view that there is a splendid opportunity to reorganise and transform education in the north of Pembrokeshire by investing in buildings and establishing the all-through, 3-18 campus at Ysgol y Preseli/Ysgol y Frenni combining the two schools. The success of Ysgol Bro Teifi, Ysgol Bro Morgannwg, Ysgol Llanhari, Ysgol Garth Olwg and an increasing number of all-through schools across Wales underlines the opportunities and the potential of combining the two schools.</p> <p>The advantages of establishing all-through schools include the following:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a common ethos and shared values across the school</li> <li>• coordinated curriculum planning to increase cohesion and continuity in the pupils' learning</li> <li>• increased skills development with a focus on building children's ability in Welsh</li> <li>• more consistency in learning and teaching styles</li> <li>• opportunities to learn across age groups and share enriching experiences and community activities</li> <li>• extended care and assistance for pupils with additional learning needs and e provision for other vulnerable groups</li> <li>• more access for pupils to a range of buildings, facilities and specialist learning resources</li> <li>• development of relationships and expertise shared between staff in the primary phase and the secondary phase</li> <li>• joint management and operation of common systems for recording and tracking pupils' progress</li> <li>• combined governance and efficient use of financial resources and human resources</li> <li>• stronger links with parents and inclusion of the local community</li> </ul>




Ref.	Comments
	<p>Ysgol Y Preseli has a flourishing sixth form. Over 160 pupils attend Years 12/13, following in excess of 30 academic and vocational A-level courses through the medium of Welsh. Ysgol Y Preseli's Key Stage 5 standards are considered excellent and the school appears in the top ten Welsh schools in the Sunday Times Good School Guide every year.</p> <p>It is vital that post-16 Welsh medium education in the future is freely available for Pembrokeshire students with the provision located in Ysgol Y Preseli. According to the authority's guidelines Ysgol Caer Elen pupils who wish to follow Advanced Level courses through the medium of Welsh will be expected to transfer to Ysgol Y Preseli from 2023 onwards.</p> <p>There is a Language Centre based on the Ysgol y Preseli campus to provide courses for latecomers. The Centre serves all the primary schools in the cluster and a significant percentage of the pupils that attend the Centre follow a Welsh medium education pathway. It is essential that the Language Centre should continue on the campus of the mother-school in order to ensure a smooth progression from the cluster schools to the secondary/all-through school. The existence of the Centre is vital to ensure that Pembrokeshire increases the percentage of pupils who can speak Welsh and consequently contribute positively to the government's target of a million Welsh speakers by 2050.</p> <p>The Crymych site also offers a wideranging, extremely effective Community Education through the Lifelong Learning Service, which again makes a positive contribution to the Government's target of increasing the number of Welsh speakers. The Community Education Centre seeks to meet the work skills and qualifications needs and the leisure requirements of the local community by:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– arranging a large choice of day and evening classes for adults and particularly Welsh for Adults courses;</li> <li>– providing a programme of various activities for the area's young people, e.g. Aelwyd yr Urdd, Menter Iaith Sir Benfro;</li> <li>– hosting and assisting local societies and organisations, e.g. Crymych Choir, Dyfed Wayfarers, Crymych/Ploveilh Twinning Committee</li> </ul>


Ref.	Comments
